WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cyhoeddwyd: Hydref 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 557A2016



Lluniwyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Rees, John Roberts, Rob Hathaway a Katherine Simmons o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus, a thrwy wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 4

Mae'r Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwella'n barhaus 5

Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella 5

## Adroddiad manwl

Mae'r Awdurdod wedi bod yn effeithiol o ran gwneud y Parc Cenedlaethol yn fwy hygyrch ac o ran annog pobl i gyfranogi yn y rhan fwyaf o fentrau'r awdurdod, ond nid yw wedi cyrraedd ei darged i leihau nifer yr adeiladau rhestredig sydd mewn perygl 8

Drwy wella arweinyddiaeth a chanolbwyntio mwy ar flaenoriaethau cymunedol, mae perfformiad yr Awdurdod ym maes cynllunio wedi gwella, er nad yw'r modd y mae'r Awdurdod yn cydweithredu ag awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill Cymru i sicrhau gwerth am arian yn ddigon cadarn 11

Mae'r Awdurdod wedi gwerthuso a chyflwyno adroddiad ar ei berfformiad ac wedi cyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella'n unol â gofynion y Mesur 12

## Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 14

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 15

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a gyflawnwyd yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (yr Awdurdod) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'i fath ym mis Awst 2015. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys, lle y bo'n briodol, grynodeb o ganfyddiadau allweddol Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) fel 'rheoleiddiwr perthnasol' o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (y Mesur). Nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Awdurdod. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd gan yr Awdurdod a chan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd y gwaith hwnnw ei gwblhau.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd yr Awdurdod yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am i ba raddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch roi'ch barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennwch atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Mae'r Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol o ran gwella'n barhaus

5 Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol, ond nid dim ond y gwaith hwnnw, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu bod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur yn ystod 2016-17.

6 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad hwn oherwydd:

a Gwelsom fod yr Awdurdod, yn 2014-15, wedi bod yn effeithiol o ran gwneud y Parc yn fwy hygyrch ac o ran annog pobl i gyfranogi yn y rhan fwyaf o fentrau'r awdurdod, ond nad oedd wedi cyrraedd ei darged i leihau nifer yr adeiladau rhestredig a oedd mewn perygl.

b Archwiliwyd y tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru i asesu i ba raddau y maent yn darparu gwasanaethau cynllunio effeithiol â llai o arian. Gwelsom fod yr Awdurdod, drwy wella arweinyddiaeth a chanolbwyntio mwy ar flaenoriaethau cymunedol, wedi gwella'i berfformiad ym maes cynllunio, er nad yw'r modd y mae'r Awdurdod yn cydweithredu ag awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill Cymru i sicrhau gwerth am arian yn ddigon cadarn.

c Mae'r Awdurdod wedi gwerthuso ac wedi cyflwyno adroddiad ar ei berfformiad ac wedi cyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella'n unol â gofynion y Mesur.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

7 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Awdurdod byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn ymgymryd â gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw cyn pen 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

8 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, mae materion y rhoddir llai o flaenoriaeth iddynt, sef cynigion ar gyfer gwella, wedi'u cynnwys yn ein hadroddiadau eraill ac maent wedi'u rhestru isod. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith o asesu gwelliant.

P1 Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru i ddatblygu:

- data cyson, a chymharol gadarn ar gostau a niferoedd a defnyddio hyn i benderfynu a yw'n sicrhau gwerth am arian ai peidio;
- canlyniadau perthnasol er mwyn helpu i fesur y cyfraniad tuag at gyflawni nod datblygu cynaliadwy, yn enwedig mewn perthynas â newid tymor hwy.

Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud mewn cydweithrediad â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, gan adeiladu ar y profiad o fesur a chymharu costau drwy Benaethiaid Cynllunio'r Alban a Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Lloegr.

P2 Ehangu cynlluniau i gydweithio'n strategol ac i weithio mewn partneriaeth, yn enwedig gydag awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru, gan gynnwys ymchwilio i gyfleoedd i leihau costau'r gwasanaeth cynllunio a'r opsiynau ar gyfer cynllunio'r gweithlu'n agosach.

P3 Cryfhau cynlluniau gwella drwy gytuno ar flaenoriaethau clir ar gyfer gwasanaethau cynllunio, pennu targedau mwy heriol a hybu proses well o reoli dogfennau.

P4 Adolygu safbwynt yr Awdurdod ar godi tâl am ddarparu rhai gwasanaethau cynllunio er mwyn sicrhau na chollir cyfleoedd i gynhyrchu incwm

9 Yn ogystal â hyn, roedd adroddiad archwilio'r Comisiynydd yn cynnwys meysydd i'r Awdurdod eu gwella yn ystod y flwyddyn.

# Adroddiad manwl



## Mae'r Awdurdod wedi bod yn effeithiol o ran gwneud y Parc Cenedlaethol yn fwy hygyrch ac o ran annog pobl i gyfranogi yn y rhan fwyaf o fentrau'r awdurdod, ond nid yw wedi cyrraedd ei darged i leihau nifer yr adeiladau rhestredig sydd mewn perygl

10 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried perfformiad yr Awdurdod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015.

11 Mae'r Awdurdod wedi cynhyrchu dau gynllun gwella'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 2014 a 2015. Roedd y naill, sef **Cynllun Gwella Rhan 1**, yn cyfuno Strategaeth Gorfforaethol a Chynllun Gwella, ac yn pennu canlyniadau ac amcanion gwella'r Awdurdod ac yn amlinellu'r hyn roeddent yn bwriadu ei gyflawni yn 2014-15. Roedd y llall, **Cynllun Gwella Rhan 2**, yn nodi gweithgareddau a pherfformiad yn 2014-15. Roedd gan yr Awdurdod bedwar o ganlyniadau gwella cyffredinol ac amcan gwella o dan bob un.

12 Rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd hynny y mae'r Awdurdod wedi'u nodi'n amcanion gwella o dan y Mesur ac ar y dystiolaeth a gasglwyd gan yr Awdurdod i ddangos ei fod wedi gwneud cynnydd o ran cyflawni'r amcanion hyn.

**Canlyniad gwella 1:** Mae tirwedd, amgylchedd a diwylliant y Parc Cenedlaethol yn cael eu gwarchod ar gyfer y genhedlaeth bresennol a'r cenedlaethau sydd i ddod.

**Amcan gwella:** Cwblhau'r adolygiad o'r holl safleoedd a reolir yn ystod 2014-15 a diwygio'r cyfundrefnau rheoli ar gyfer unrhyw rai sy'n methu â chyflawni amcanion eu cynllun rheoli.

13 Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd da o ran sicrhau'r canlyniad ym maes cadwraeth. Roedd ei amcan gwella ar gyfer y canlyniad hwn yn parhau ers y flwyddyn flaenorol, sef adolygu 50 y cant o'r safleoedd a reolir. Mae'r Awdurdod wedi cwblhau'r gwaith o fonitro 92 o'r 98 safle y mae'n eu rheoli. O'r safleoedd hyn, mae 60 y cant mewn cyflwr ecolegol 'da' ac mae 34 y cant yn 'gwella,' ac yn cael eu rheoli'n unol â'u cynllun rheoli. Mae hyn yn rhagori gryn dipyn ar darged yr Awdurdod, sef 75 y cant, ac nid ystyriwyd bod yr un o'r safleoedd a adolygwyd yn methu.

14 Fodd bynnag, roedd cynnydd cyffredinol yn amrywio'n ôl mesurau perfformiad. Mae tri o'r pum mesur perfformiad yn dangos dirywiad o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd 6.1 y cant o adeiladau rhestredig mewn perygl yn 2014-15, a oedd yn golygu nad oedd yr Awdurdod wedi cyrraedd ei darged ei hun, sef 4 y cant. Yn ôl yr Awdurdod, ni lwyddodd i gyrraedd y targed gan fod adolygiad gan Cadw o'r sir gyfan wedi nodi adeiladau ychwanegol a oedd mewn perygl ac nid oedd yr Awdurdod wedi cynnwys y rhain. Methodd yr Awdurdod â chyrraedd ei darged ar gyfer nifer y datblygiadau a gymeradwywyd yn groes i bolisïau gwarchod y dirwedd. Ni nodir y rheswm dros y perfformiad hwn yn adroddiad **Cynllun Gwella Rhan 2** (ni chymeradwywyd yr un datblygiad o'r fath yn 2013-14), ac ni nodir unrhyw gamau y bydd yr Awdurdod yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r gostyngiad hwn.

**Canlyniad gwella 2:** Mae trigolion ac ymwelwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd yn mwynhau, yn gwerthfawrogi ac yn deall y Parc Cenedlaethol.

**Amcan gwella:** Datblygu rhwydwaith o hawliau tramwy sydd ar agor, y gellir eu defnyddio, sydd ag arwyddion addas ac sydd mewn cyflwr derbyniol gan sicrhau bod o leiaf 80 y cant o'r rhwydwaith llwybrau ar agor ac yn cyrraedd safon yr Awdurdod erbyn mis Mawrth 2015.

15 Cyrhaeddodd yr Awdurdod ei holl dargedau ar gyfer y mesurau perfformiad o dan yr amcan gwella hwn gan wella'i berfformiad ers y flwyddyn flaenorol ym mhob un o'i fesurau bron. Llwyddodd yr Awdurdod i ragori ar ei darged (80 y cant) gan fod 85 y cant o'r rhwydwaith o hawliau tramwy yn agored ac yn hygyrch, ac yn cyrraedd y safon gofynnol; roedd hyn 30 y cant yn uwch na'r hyn yr amcangyfrifir yw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan 12 y cant yn uwch na chyfartaledd awdurdodau parciau cenedlaethol Lloegr.

16 Drwy gyfrwng amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys sicrhau bod darnau o'r llwybrau'n addas i'r llai abl, ac ymestyn y cynllun Cerdded er Iechyd yn ddaearyddol, mae'r Awdurdod wedi sicrhau bod y rhwydwaith llwybrau troed yn fwy hygyrch. Ategwyd hyn gan ymgyrch gyhoeddusrwydd eang i hyrwyddo negeseuon, digwyddiadau a mentrau'r Parc Cenedlaethol ar-lein a drwy ei gyhoeddiad, **Coast to Coast**. Mae'r teclynnau cyfrif a gaiff eu gosod mewn mannau penodol yn dangos cynnydd o 30 y cant yn y nifer a ddefnyddiodd y llwybrau troed yn 2014-15 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Awdurdod yn parhau i wneud cynnydd da o ran cynyddu nifer y bobl anodd eu cyrraedd a ymgysylltodd â'r Parc Cenedlaethol. Bu cynnydd o 20 y cant yn nifer y bobl anodd eu cyrraedd a ymgysylltodd â'r Parc Cenedlaethol, o 5,070 yn 2013-14 i 6,081 yn 2014-15.

**Canlyniad gwella 3:** Mae gwaith yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cael effaith gadarnhaol, gynaliadwy ar yr economi leol ac ar les trigolion ac ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol.

**Amcan gwella:** Darparu ein gwasanaethau mewn modd sy'n hybu ac yn gwella lles economaidd-gymdeithasol busnesau, trigolion ac ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol.

17 Roedd tri mesur perfformiad ynghlwm wrth yr amcan hwn, sef y nifer sy'n defnyddio bysiau'r arfordir; canran yr unedau tai newydd sy'n fforddiadwy; a'r nifer sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau'n ymwneud ag iechyd a drefnir gan yr Awdurdod.

18 Bu gostyngiad yn y nifer a ddefnyddiodd fysiau'r arfordir yn 2014-15, sef 64,532 o'i gymharu â 86,000 yn ystod y flwyddyn flaenorol 2014-15, ac ni lwyddwyd i gyrraedd y targed o 83,000 yn 2014-15. Roedd hyn i'w briodoli i ostyngiad yn yr arian a roddwyd i Bartneriaeth Lonydd Glas Sir Penfro sy'n rhedeg gwasanaeth yr arfordir. Arweiniodd hynny at ostyngiad yn nifer y cerbydau a oedd yn darparu'r gwasanaeth.

19 Mae’r ail fesur yn cyfeirio at ganran yr unedau tai newydd sy’n fforddiadwy. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad, **Cyflawni â Llai: Gwasanaethau Cynllunio**[1], llwyddodd yr Awdurdod i gynyddu’n sylweddol nifer yr unedau tai fforddiadwy y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn 2014-15, o’i gymharu â’r flwyddyn ariannol flaenorol.

20 Cymerodd 2,155 o bobl ran mewn digwyddiadau a drefnodd yr Awdurdod i hybu iechyd – y targed oedd 2,000. Er iddo gyrraedd ei darged, mae’r ffigur wedi gostwng ers 2013-14 pan gymerodd 2,252 o bobl ran mewn digwyddiadau o’r fath. Ni chawsom hyd i wybodaeth am berfformiad yr Awdurdod yn ôl y mesur hwn yng **Nghynllun Gwella Rhan 2**.

**Canlyniad gwella 4:** Mae’r Awdurdod Parc Cenedlaethol, mewn ymgynghoriad â thrigolion, ymwelwyr a phartneriaid eraill, yn addasu i’r gostyngiad mewn cyllid rhwng 2014 a 2016 gan barhau i gynnal systemau llywodraethu da, gwasanaethau o safon a gwerth am arian.

**Amcan gwella:** Lleihau sylfaen gostau’r Awdurdod fel ei bod o fewn terfynau’r cyllid sy’n hysbys.

21 Mae’r Awdurdod yn nodi y caiff llwyddiant o ran yr amcan hwn ei fesur drwy bennu targedau a gweithredu o fewn ei gyllidebau cytbwys, cael adroddiadau ffafriol gan Swyddfa Archwilio Cymru a sicrhau bod lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid yn cael eu cynnal.

22 Gan ei fod yn rhagweld gostyngiad ym maint grant y Parc Cenedlaethol yn 2016-2018, gofynnodd yr Awdurdod i Aelodau’r Awdurdod Parc Cenedlaethol ystyried ffyrdd o fabwysiadu dulliau mwy strategol o ddarparu gwasanaethau.[2] Mae’r Awdurdod wedi cynnal cyfres o weithdai i’r Aelodau i adolygu gwasanaethau ac i ystyried sut y gellid arbed arian. Dywedodd yr Aelodau eu bod yn teimlo’u bod yn cael eu cynnwys yn ddigonol yn y broses o gynllunio’r gyllideb a’u bod yn gweithio’n dda gyda swyddogion i sicrhau bod eu safbwyntiau’n cael eu cyflwyno mewn trafodaethau ar y gyllideb.

23 Bu gostyngiad o dros £772,000, neu bron 13 y cant, yn y cyllid a gafodd yr Awdurdod yn 2014-15 a 2015-16. Gohiriodd yr Awdurdod y toriadau mwyaf yn y gyllideb tan 2015-16 a hynny er mwyn cael mwy o amser i gynllunio a pharatoi i leihau’r effaith ar wasanaethau. Drwy hynny, llwyddwyd i osgoi’r angen i leihau cyllid prosiectau’n rhy gyflym a’r angen i ddileu swyddi.[3]

24 Mae data cyfyngedig wedi’i gynnwys yng Nghynllun Gwella Rhan 2 yn ymwneud â bodlonrwydd cwsmeriaid, ac eithrio i nodi bod digwyddiadau ymgynghori’n dangos cefnogaeth eang yn lleol i’r parciau cenedlaethol. Ni phennwyd targedau ar gyfer y dangosydd llwyddiant hwn felly mae’n anodd gweld sut y bydd yr Awdurdod yn mesur ei berfformiad cyffredinol yn ôl yr amcan hwn. Mae’r Awdurdod yn cydnabod bod hyn wedi’i hepgor o Gynllun Gwella Rhan 2, ond bydd gwybodaeth lawnach am y broses ymgynghori yn ystod y cyfnod hwn yng Nghynllun Gwella Rhan 2 ar gyfer 2015-16.

1 Swyddfa Archwilio Cymru, **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cyflawni â Llai: Gwasanaethau Cynllunio**, Awst 2015
2 Mae’r Awdurdod yn cynnwys 18 o aelodau: caiff 12 eu henwebu gan Gyngor Sir Penfro a chaiff chwech eu penodi gan Lywodraeth Cymru.
3 Swyddfa Archwilio Cymru, **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cyflawni â Llai: Gwasanaethau Cynllunio**, Awst 2015

25 Mae’r Awdurdod yn cydweithio ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill Cymru i newid y ffordd y maent yn cyflwyno adroddiadau ar eu cynlluniau gwella. Bydd Cynllun Corfforaethol 2016-17 yn cyfuno amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ag amcanion corfforaethol ac amcanion gwella. O gofio y bydd ganddynt lai o gyllid, mae awdurdodau’r parciau cenedlaethol hefyd wedi nodi sut y byddant yn dyrannu arian yn ôl y saith nod llesiant cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Drwy gysoni ac adolygu ei amcanion gwella yn ôl y saith nod llesiant, mae’r Awdurdod yn bwriadu mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig.

## Drwy wella arweinyddiaeth a chanolbwyntio mwy ar flaenoriaethau cymunedol, mae perfformiad yr Awdurdod ym maes cynllunio wedi gwella, er nad yw’r modd y mae’r Awdurdod yn cydweithredu ag awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill Cymru i sicrhau gwerth am arian yn ddigon cadarn

26 Ym mis Hydref 2015, cyhoeddwyd ein hadroddiad, **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cyflawni â Llai: Gwasanaethau Cynllunio**.

27 Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi lleihau’r cyllid a gaiff y tri awdurdod parc cenedlaethol. Gostyngwyd y cyllid yn 2014-15, ac eto yn 2015-16 a bydd gostyngiadau eraill yn y dyfodol o bosibl. Mae holl awdurdodau parciau cenedlaethol Chymru yn awr yn gwneud penderfyniadau anodd ynghylch sut y byddant yn ymdopi â llai o gyllid. O ystyried bod cyfran uchel iawn o gyllid awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru yn cael ei gwario ar wasanaethau cynllunio, o’u cymharu â chynghorau, mae risg benodol ynghlwm wrth y gostyngiad cyffredinol yn eu cyllid. Yn ystod 2015-16, archwiliwyd sut y mae awdurdodau parciau cenedlaethol yn rheoli’r risg, gan asesu i ba raddau roeddent yn darparu gwasanaethau cynllunio â llai o arian.

28 Gwelsom fod yr Awdurdod wedi gwella’i berfformiad ym maes cynllunio drwy wella arweinyddiaeth a chanolbwyntio mwy ar flaenoriaethau cymunedol, er nad yw’r modd y mae’r Awdurdod yn cydweithredu ag awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill Cymru i sicrhau gwerth am arian yn ddigon cadarn.

29 Daethom i’r casgliad hwn gan fod yr Awdurdod, drwy wella arweinyddiaeth a chanolbwyntio mwy ar flaenoriaethau cymunedol, yn cryfhau ei allu i ddarparu gwasanaethau cynllunio gwell, er bod blaenoriaethau’r gwasanaethau braidd yn annelwig. Mae costau cyffredinol yr Awdurdod, ei berfformiad a bodlonrwydd cwsmeriaid yn dda at ei gilydd ond, er ei fod yn cydweithredu’n well, nid yw’n gwneud hynny’n ddigon strategol, mae’r cyflenwad tir ar gyfer tai, a’r unedau tai fforddiadwy’n brin, a datblygu’n araf y mae’r broses o gynhyrchu incwm. Gwelsom hefyd fod y gwasanaethau cynllunio’n gwella o ganlyniad i drefniadau rheoli perfformiad ond nad yw’r Awdurdod yn canolbwyntio digon ar gostau, gwerth am arian a chanlyniadau ei wasanaeth cynllunio.

30 Trafododd yr Awdurdod yr adroddiad hwn yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 3 Chwefror 2016. Croesawodd yr Awdurdod yr adroddiad gan gydnabod y cynnydd da a wnaed a'r meysydd i'w gwella. Mae'r Awdurdod wrthi'n archwilio sut i weithio gydag awdurdodau cynllunio eraill i ddatblygu data a chanlyniadau cymharol. Wrth ymateb i'r cynigion ar gyfer gwella yn yr adroddiad, mae'r Awdurdod yn archwilio systemau newydd o reoli dogfennau ac yn gweithio tuag at godi tâl am rai gwasanaethau cynllunio drwy'r sir yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## Mae'r Awdurdod wedi gwerthuso a chyflwyno adroddiad ar ei berfformiad ac wedi cyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella'n unol â gofynion y Mesur

31 Ym mis Tachwedd 2015, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif i'r Awdurdod yn cadarnhau iddo archwilio Cynllun Gwella'r Awdurdod yn unol ag adran 17 o'r Mesur a Chod Ymarfer Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru. O ganlyniad i'r archwiliad hwnnw, nododd y dystysgrif hefyd fod yr Archwilydd Cyffredinol yn credu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a hynny i raddau digonol, wrth gyflawni ei ddyletswyddau.

32 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad blynyddol sy'n disgrifio'i berfformiad:

- a wrth gyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau ei fod yn gwella'n barhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- b wrth gyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu;
- c drwy gyfeirio at y dangosyddion perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a'i ddangosyddion perfformiad ei hun; ac
- ch wrth gyrraedd unrhyw safonau perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a'i safonau perfformiad ei hun.

33 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall y bydd Gweinidogion Cymru yn ei bennu drwy orchymyn. O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ystyried y canllawiau a gyhoeddodd Gweinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

34 Ym mis Mehefin 2015, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif i'r Awdurdod yn cadarnhau bod ei Gynllun Gwella wedi'i archwilio'n unol ag adran 17 o'r Mesur a Chod Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol. O ganlyniad i'r archwiliad, nododd y dystysgrif fod yr Archwilydd Cyffredinol yn credu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a hynny i raddau digonol, wrth gyflawni ei ddyletswyddau.

35 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella i ddisgrifio'i gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

a wneud trefniadau i sicrhau ei fod yn gwella'n barhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;

b gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; a

c gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn bodloni unrhyw safon perfformiad a osodwyd gan Weinidogion Cymru.

36 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi, neu ar ôl dyddiad arall a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru. Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a gaiff ei chynnwys ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ddilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

37 Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed i baratoi'r adroddiad hwn ac i wneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur fel yr unig ffordd o ddod o hyd i'r holl wendidau a'r holl gyfleoedd i wella.

## Gwaith gwerthuso'r Comisiynydd

38 Cafodd rôl y Comisiynydd ei chreu yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ar 31 Mawrth 2015, cafwyd pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau drwy is-ddeddfwriaeth. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd pwerau a etifeddwyd yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

39 Mae'r Comisiynydd yn cydweithio â'r holl awdurdodau yng Nghymru i archwilio cynlluniau iaith ac i'w cynghori ynghylch sut i'w gweithredu. Cyfrifoldeb awdurdodau yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod wedi ymrwymo i baratoi adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd sy'n amlinellu ei berfformiad o ran gweithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn rhoi ymateb ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen. Anfonodd y Comisiynydd Y**mateb i Adroddiad Monitro Blynyddol 2014/15** at yr Awdurdod ym mis Awst 2015. Ym mis Medi 2015, cyhoeddodd y Comisiynydd hysbysiad cydymffurfio a oedd yn rhestru'r safonau y mae'n rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â nhw cyn pen 6 neu 12 mis.

40 Mae'r adroddiadau a'r llythyrau archwilio a anfonodd y Comisiynydd at yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn i'w gweld ar wefan y Comisiynydd.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran ei gynlluniau gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn edrych i'r dyfodol wrth asesu'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i benderfynu a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a nodwyda hynny er mwyn llunio barn ar record yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Mr T Jones
Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

Annwyl Tegryn

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2014-15**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n codi o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau'n ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau**

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi datganiadau ariannol yn unol â gofynion perthnasol; a
- rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio'i adnoddau mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol, ac adolygu'r trefniadau hyn yn barhaus.

Yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) mae'n ofynnol i mi:

- roi barn archwilio am y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau ei fod yn defnyddio'i adnoddau mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol Cymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu'n unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar waith Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 29 Medi 2015, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion yr Awdurdod. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Yn fy adroddiadau ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 23 Medi 2015, rhoddais wybod i aelodau'r Awdurdod am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon. Ni nodwyd unrhyw gamgymeriadau o bwys yn y datganiadau ariannol drafft, dim ond mân newidiadau. Nid oes angen tynnu sylw at unrhyw faterion eraill.

Cefais wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar fy ngwaith mewn unrhyw ffordd. Bydd y tîm archwilio'n parhau i weithio gyda'r swyddog cyllid eleni i nodi lle yn y broses o baratoi cyfrifon a'r broses archwilio y gellir gweithredu'n fwy effeithlon.

**Rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio'i adnoddau mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol**

Ystyriais drefniadau'r Awdurdod i sicrhau ei fod yn defnyddio'i adnoddau mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol ar sail y gwaith archwilio a gwblhawyd ar y cyfrifon yn ogystal â'r gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw'r Awdurdod wedi dangos eto fod ganddo drefniadau effeithiol ar waith neu feysydd y gellid eu gwella.

Mae'r Awdurdod yn parhau i wella nifer o agweddau ar y parc ac wedi ymateb yn effeithiol i'r gostyngiad yn ei gyllid, er y gellid gwneud rhagor i ddatblygu rhai prosesau ategol.

**Mae tystysgrif yn cadarnhau bod y cyfrifon wedi'u harchwilio wedi'i chwblhau a'i hanfon at yr Awdurdod ar 29 Medi 2015**

Disgwylir y bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 yr un fath â'r ffi y cytunwyd arno ac a nodir yn yr Archwiliad Blynyddol Amlinellol.

Yn gywir

**Richard Harries**
ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru